

Amjad Salhab

Cyflwyniad

Fy enw i yw Amjad Salhab. Dwi'n fferyllydd clinigol sy'n presgripsiynu. Rwyf hefyd yn ymarferydd clinigol uwch. Fy swydd fel presgripsiynydd ac ymarferydd uwch yw delio â chleifion naill ai drwy frysbenneu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Rwy'n cofnodi eu hanes o ran iechyd, gwneud diagnosis, ac yna rhoi cyngor ar reoli'r sefyllfa fel y bo'n briodol. Felly gall fod yn presgripsiynu i'r claf yn y feddygfa, neu gall fod yn cynnig sicrwydd a chyngor cyffredinol, ond hefyd, os oes angen, gallaf gyfeirio'r claf at ofal eilaidd fel argyfwng. Weithiau rydyn ni'n cyfeirio cleifion yn ôl os ydyn ni'n credu bod angen ymchwilio ymhellach yn yr hir dymor, neu os oes angen atgyfeiriad nad yw'n fater brys.

Dechreuais weithio yn yr hyb yma yn y dyddiau cynnar; dechreuon ni ym mis Rhagfyr 2019. Roedd y prosiect yn dreial i gefnogi meddygfeydd lleol yn ystod pwysau'r gaeaf. Roedd yn gyfle da i wella mynediad cleifion at y gwasanaeth a lleddfu'r pwysau ar feddygfeydd eraill, ac yna fe darodd COVID, a'r hyb yma oedd yr hyb COVID ar gyfer Canol y Fro, felly roedden ni'n gweld cleifion â COVID. Roedd yn gyfnod anodd i bawb ac wrth edrych yn ôl arno, rwy'n falch iawn fy mod i wedi bod yn rhan o'r tîm hwnnw.

Heriau a Buddion

O ran heriau, yn amlwg roedd hi'n anodd i lawer o gleifion ddeall, byddai rhai'n dweud, "Dw i eisiau siarad gyda fy meddyg teulu", "Pam ydw i'n siarad â chi?", "Pwy ydych chi? Dydych chi ddim yn feddyg.", "Dydych chi ddim o fy meddygfa i." Roedd yn her newid diwylliant ymhlith cleifion i ddweud "rydyn ni yma, rydyn ni wedi cymhwyso, rydyn ni wedi gwneud yr hyfforddiant angenrheidiol, mae gyda ni gefnogaeth, mae gyda ni feddyg teulu ar y safle os oes angen ac rydym yn cael ein llywodraethu gan lawer o brotocolau a gweithdrefnau". Dyna'r her fwyaf, mae'n debyg.

Yn amlwg roedd cyfnod COVID yn sefyllfa hynod heriol. Roedd gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol am oriau hir yn anodd, a mynediad cyfyngedig at ofal eilaidd. Bu'n rhaid i ni ddelio â chleifion oedd yn wirioneddol sâl a nebiwleiddio ar y safle.

Felly mae llawer o heriau ond at ei gilydd, rwy'n credu bod yr Hyb wedi rhoi profiad cadarnhaol iawn i ni fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, meddygfeydd lleol a hyd yn oed trigolion lleol y Fro. Erbyn hyn, yn anaml iawn y bydd rhywun un gofyn "pwy



ydych chi?" Pam ydych chi'n fy ffonio i?" Ac mae pobl yn hapus iawn ac yn gwerthfawrogi'r hyn rydyn ni'n ei wneud erbyn hyn, sy'n rhoi boddhad.

Cafodd y gwasanaeth ei groesawu gan feddygfeydd lleol. Wrth gwrs roedd hi'n gyfnod y gaeaf, y pwysau ar ei anterth beth bynnag. Felly cafodd unrhyw apwyntiad ychwanegol ei groesawu gan feddygfeydd. Roedd problem o ran presgripsiynwyr fferyllol. Roedd llawer o gwestiynau am fy nghymhwysedd i a chydweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn y maes gofal iechyd ond cafodd hynny ei glirio'n gyflym gan yr effaith ar arferion a defnyddwyr gwasanaethau yn gyffredinol. Rwy'n meddwl ei fod yn gyfle gwych i bawb. Roedden nhw'n gallu gweld neu siarad â rhywun wyneb yn wyneb. Yn enwedig yn ystod COVID, pan gaeodd llawer o feddygfeydd eu drysau, ac apwyntiadau wyneb yn wyneb ddim ar gael yn hawdd, roedd yr hyb yn gyfle i gleifion gael eu gweld wyneb yn wyneb pan oedd hynny'n angenrheidiol, a rhoddodd hyn gyfle pwysig i roi diagnosis a rheoli cyflyrau'n iawn.

O ran cydweithwyr eraill roedd yr hyb yn lle gwych ar gyfer hyfforddi. Roedd llawer o fferyllwyr cymunedol, parafeddygon, nyrsys, a gweithwyr perthynol i iechyd proffesiynol yn gweithio yno. Cawson nhw brofiad o weld amrywiaeth eang o gyflyrau, ac maen nhw bellach yn darparu gwasanaethau mewn gwahanol leoedd. Roedd treial gyda pharafeddygon sydd bellach yn gweithio fel ymarferwyr uwch yn gweithio o'u ceir, er mwyn lleihau faint o bobl oedd angen eu derbyn mewn ysbytai. Mae cydweithwyr a fferyllwyr cymunedol a gafodd hyfforddiant yma bellach yn gallu rhoi triniaeth mewn fferyllfeydd cymunedol diolch i'r profiad a gawson nhw.

Casgliad

At ei gilydd, rwy'n credu ei fod wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar bawb. Roedd yr hwb yn gyfle gwych i weithwyr gofal perthynol i iechyd weithio'n agos mewn tîm amlddisgyblaethol gyda meddyg teulu. Mae angen cymorth weithiau gan feddygon ac roedd yn dda bod mewn un adeilad; i rannu achosion, i drafod achosion a'r opsiynau rheoli. Rwy'n credu bod hynny ynddo'i hun wedi gwella a rhoi hwb i wybodaeth glinigol gweithwyr gofal perthynol i iechyd a meddygon hefyd. Cafodd effaith dda yn gymdeithasol ac yn seicolegol ar weithwyr gofal perthynol i iechyd, byddwn i'n dweud.

Mae'n braf cael perthynas agos gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn y maes hwn. Roedd gyda ni feddygon locwm, meddygon teulu, roedd gyda ni wahanol weithwyr gofal perthynol i iechyd yn gweithio yma. Yn gymdeithasol roedd yn lle



defnyddiol iawn i fod. Yn ogystal â hynny, cafodd yr hyb effaith dda ar bractisau, er enghraifft wrth leihau'r pwysau ar adegau pan oedd pobl bant gyda COVID neu brinder staff oherwydd gwyliau blynyddol neu achosion eraill. Roedd yn ysgafnhau'r baich ar y timau yn y meddygfeydd yn gyffredinol.

Roedd gyda ni ddyddiau, pan oedd angen, lle roedd ein hamser wedi'i neilltuo i'r meddygfeydd hynny oedd yn cael trafferthion. O ran defnyddwyr gwasanaethau, rwy'n gobeithio ei fod wedi bod yn bositif. Fe gawson nhw brofiad cadarnhaol yn yr hyb, ac yn galonogol iawn, roedd yr arolygon oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn rhoi adborth cadarnhaol iawn, sy'n beth braf iawn gwybod. Mae'n gwella gwasanaeth cwsmeriaid neu fynediad defnyddwyr at wasanaeth gofal iechyd yn y Fro ac roedd hynny hefyd yn bwysig i'r tîm.

Dysgu Gwersi

Mae ychydig yn anodd, rydym mewn proses sy'n esblygu, proses ddysgu drwy'r amser, ac mae'n ddefnyddiol gallu defnyddio'r hyb fel canolfan hyfforddi ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gyffredinol a datblygu sgiliau gweithiwr gofal perthynol i iechyd. Yn yr hirdymor, bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar feddygfeydd. Gobeithio.

